# Ledipasvir-sofosbuvir i drin hepatitis C cronig

Tachwedd 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir Ledipasvir-sofosbuvir (Harvoni) fel triniaeth bosibl ar gyfer oedolion sydd â rhai mathau (a elwir yn enoteipiau) o hepatitis C cronig. Gweler tablau 1 a 2.

**Tabl 1 Os nad yw eich hepatitis C wedi'i drin o'r blaen**

| Math o hepatitis C | Triniaeth Ledipasvir-sofosbuvir a argymhellir gan NICE |
|---|---|
| 1, heb sirosis | 8 wythnos o driniaeth |
| 1 neu 4, heb sirosis | 12 wythnos o driniaeth |

**Tabl 2 Os yw eich hepatitis C wedi'i drin o'r blaen, ond nad yw wedi ymateb yn ddigon da**

| Math o hepatitis C | Triniaeth Ledipasvir-sofosbuvir a argymhellir gan NICE |
|---|---|
| 1 neu 4, heb sirosis | 12 wythnos o driniaeth |
| 1 neu 4, heb sirosis | 12 wythnos o driniaeth, dim ond os oes gan y person risg isel o'r afiechyd yn gwaethygu |

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os oes gennych enoteip 1 neu 4 o hepatitis C cronig sy'n diwallu'r meini prawf yn nhablau 1 neu 2, a bod eich tîm gofal iechyd yn credu mai ledipasvir-sofosbuvir yw'r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai'r driniaeth fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis i gyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech allu parhau i gymryd ledipasvir-sofosbuvir nes y byddwch chi a'ch tîm meddygol yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellwyd ledipasvir-sofosbuvir ar gyfer rhai oedolion â genoteip 1 neu 4 o hepatitis C oherwydd bod y manteision i bobl â hepatitis C cronig yn cyfiawnhau ei gost.

## Y cyflwr a'r driniaeth

Mae hepatitis C yn afiechyd o'r iau a achosir gan firws hepatitis C. Mae 6 math gwahanol (genoteipiau) o'r firws. Mae rhai sy'n cael eu heintio gan hepatitis C yn gwella'n gyflym heb driniaeth, ond mae'r mwyafrif o bobl yn datblygu haint hirbarhaol; fe'i gelwir yn hepatitis C cronig. Gall pobl sydd â hepatitis C cronig deimlo'n iach am nifer o flynyddoedd, ond mae'r firws yn achosi niwed i'r afu a gall wneud iddynt deimlo'n sâl.

Mae ledipasvir-sofosbuvir (Harvoni) yn gyfuniad o 2 gyffur mewn tabled unigol a ddefnyddir i drin genoteipiau 1 a 4 o'r firws hepatitis C.  Gall gael gwared ar y firws mewn rhai pobl nad ydynt erioed wedi cael triniaeth neu sydd wedi cael triniaeth o'r blaen na gafodd wared ar y firws.

Gall NHS Choices  fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Ymddiriedolaeth Afu/Iau Prydain, 0800 652 7330, www.britishlivertrust.org.uk
- Ymddiriedolaeth Hepatitis C, 0845 223 4424, www.hepctrust.org.uk
- HIV-i-Base, 0207 407 8488, i-base.info
- Liver4Life, 0800 074 3494, www.liver4life.org.uk
- Terrence Higgins Trust, 0808 802 1221, www.tht.org.uk

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

## Esboniad o'r termau meddygol

Yn yr arweiniad mae risg isel y bydd hepatitis C cronig person yn gwaethygu am y rhesymau canlynol:

- mae ganddynt sgôr Child-Pugh isel (6 neu'n is, hynny yw, categori A. Mae'r sgôr hon yn mesur difrifoldeb clefyd cronig yr afu)
- mae ganddynt gyfrif platennau o 75,000/mm$^3$ neu fwy
- nid oes unrhyw arwyddion o bwysedd gwaed uchel (megis gwythiennau annormal, wedi chwyddo yn yr oesoffagws) yn y system gwythïen borthol, y system sy'n cario gwaed o'r bibell gastroberfeddol i'r afu
- nid ydynt wedi cael anghydfadfeiriad yr afu (pan na fydd yr afu yn gweithio'n iawn) oherwydd ei hepatitis C
- nid ydynt wedi cael cyffur o'r enw atalydd NS5A o'r blaen (er enghraifft, ledipasvir neu daclatasvir).

ISBN: 978-1-4731-1737-2